



# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

## HANES Y DDOGFEN

Fersiwn e.e. 1.1	Dyddiad	Statws/Newidiadau e.e. Adolygiad llawn, Newidiadau yn dilyn pwyllgor
0.1	12/2004	Drafft cyntaf
1.0	11/01/2005	Cymeradwyo gan Fwrdd y Cyngor
2.0	12/2010	Adolygiad – cymeradwyo gan y Grŵp Rheoli Gwybodaeth
3.0	26/11/2018	Adolygiad – cymeradwyo gan y Panel Llywodraethu Gwybodaeth
4.0	06/2023	Adolygiad – Cymeradwyo gan y Panel Llywodraethu Gwybodaeth

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

## 1 Datganiad Polisi

Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi amcanion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (y Rheoliadau) ac yn ymrwmo i gydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth drwy

- Sicrhau ei fod yn ymateb i geisiadau am wybodaeth yn brydlon ac yn rhoi cyngor a chymorth i ymgeiswyr a
- Lle mae eithriad o dan y ddeddfwriaeth ystyried yn ddwys a ddylid darparu'r wybodaeth ai peidio

Diben y Polisi yw cynorthwyo staff i gyflawni eu dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth a rhoi arweiniad i'r cyhoedd ynglŷn â chyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf a'r Rheoliadau.

## 2 Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth a gofnodir ac a ddelir gan y Cyngor neu wybodaeth a ddelir gan rywun arall ar ran y Cyngor. Ar gyfer y Rheoliadau, mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth a ddelir gan y Cyngor ar ran unrhywun arall.

## 3 Y Cynllun Cyhoeddi a Data Agored

Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Cyhoeddi sy'n nodi pa wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, ym mha ffurf y mae'r wybodaeth ar gael ac a yw'r Cyngor yn codi tâl.

Bydd y Cyngor yn cynnal y Cynllun yn unol a'i ymrwymadau statudol.

Er mwyn bod yn rhagweithiol, byddwn yn cyhoeddi setiau data y gellir eu hailddefnyddio ar ein gwefan o dan y pennawd data agored.

## 4 Ceisiadau Unigol am Wybodaeth

Bydd y Cyngor yn

- Sefydlu trefn ar gyfer delio efo ceisiadau.
- Ateb pob cais ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith (oni bai fod eithriad yn berthnasol a bod arno angen mwy o amser i ystyried y cais)
- Rhoi esboniad llawn i'r ymgeisydd pan fydd cais yn cael ei wrthod.

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

- Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i fuddiannau unrhyw drydydd parti y bydd penderfyniad yn effeithio arnynt.
- Rhoi cyngor a chymorth i'r ymgeisydd ac yn trosglwyddo ceisiadau i gyrrff perthnasol eraill pan nad yw'r Cyngor yn cadw'r wybodaeth.

## 4.1 Eithriadau

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae 23 o eithriadau o dan y Ddeddf (gweler Atodiad 1 am y rhai sy'n berthnasol i lywodraeth leol).

Gall y Cyngor benderfynu bod y wybodaeth y gofynnir amdani yn eithriedig o dan y Ddeddf ac felly gwrthod datgelu'r wybodaeth honno.

Os mai dim ond rhan o unrhyw ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, bydd y Cyngor yn ysytried datgelu gweddill y wybodaeth yn y ddogfen i'r ymgeisydd.

### Eithriadau llwyr

Ni fydd y Cyngor yn cadarnhau nac yn gwadu y cedwir y wybodaeth ac ni ni fydd yn darparu'r wybodaeth.

Bydd yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 20 diwrnod gwaith gan roi rhesymau llawn am y penderfyniad.

### Eithriadau rhannol

Os yw'r Cyngor yn credu bod un o'r eithriadau hyn yn berthnasol, bydd rhaid iddo benderfynu ar y cais ar sail prawf 'lles y cyhoedd'.

Bydd y Cyngor yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 20 diwrnod gwaith fod eithriad yn berthnasol ac erbyn pryd y bydd wedi dod i benderfyniad.

### Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Mae mwyafrif yr eithriadau o dan y Rheoliadau yn destun prawf lles y cyhoedd. Bydd y Cyngor yn ymateb yn unol â'r drefn ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gweler Atodiad 2 am yr eithriadau.

### Cyfrifoldebau

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

Rheolwyr Gwasanaeth perthnasol sydd yn gyfrifol am wrthod ceisiadau mewn ymgynghoriad â'r Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth ac, os os cyfyd angen, trwy geisio cyngor cyfreithiol mewn achosion penodol.

## 4.2 Ceisiadau blinderus a pharhaus

Mae gan y Cyngor yr hawl i wrthod ceisiadau blinderus a pharhaus.

## 4.3 Gwybodaeth am drydydd parti

### (i) Gwybodaeth fasnachol/gyfrinachol

Wrth ymdrin â cheisiadau o'r math, bydd y Cyngor yn ymgynghori â thrydydd partion perthnasol cyn dod i benderfyniad.

### (ii) Gwybodaeth am Gyngorwyr

Nid yw gwybodaeth sydd ym meddiant neu a gynhyrchir gan gyngorwyr unigol yn wybodaeth a ddelir gan y Cyngor oni bai ei fod yn rhan o gofnodion y Cyngor am eu gwaith neu yn cynrychioli gwybodaeth a gynhyrchir yn eu swyddogaeth fel aelod Cabinet. Os yw'r wybodaeth yn rhan o gofnod sydd ym meddiant y Cyngor yna bydd unrhyw gais am ei datgelu yn cael ei brosesu yn unol â'r Polisi yma.

### (iii) Gwybodaeth am staff

Ni fyddwn yn datgelu manylion personol a fyddai'n amharu ar breifatrwydd yr unigolyn yn eu bywyd personol, yn groes i egwyddor gyntaf Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DG sy'n datgan bod rhaid i wybodaeth gael ei phrosesu'n deg ac yn gyfreithlon.

Wrth benderfynu ar hyn byddwn yn ystyried y ffactorau a ganlyn:

- ydi'r wybodaeth yn sensitif;
- goblygiadau datgelu;
- disgwyliadau rhesymol yr aelod staff; a
- a oes budd cyfreithlon mewn cael mynediad i'r wybodaeth ai peidio

## 4.4 Cyfieithu

Gan fod y Ddeddf yn cyfeirio at wybodaeth sy'n cael ei 'chadw' ar adeg gwneud cais, nid oes rheidrwydd i gyfieithu dogfennau mewn ymateb i gais.

Fodd bynnag, yn unol â pholisi iaith y Cyngor ac er mwyn cydymffurfio ag ysbryd y Ddeddf, bydd y Cyngor yn ymrwmo i gyfieithu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Bydd yn hysbysu ymgeiswyr na fydd, o angenrheidrwydd, yn gallu darparu'r

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

cyfieithiad o fewn yr 20 diwrnod gwaith ac y bydd yn codi tâl yn unol â'r hyn a nodir yn y polisi codi tâl – gweler Atodiad 3.

## 4.5 Codi tâl

Oni nodir yn wahanol, bydd y wybodaeth sydd ar gael o dan y Cynllun Cyhoeddi yn rhad ac am ddim.

Gweler y polisi ar wahân yn Atodiad 3.

## 5 Hyfforddiant

Bydd canllawiau ysgrifenedig ar gael i staff ar sut i ddelio efo ceisiadau.

## 6 Cyfrifoldebau

Yr Uwch Swyddog Statudol Diogelu Gwybodaeth sy'n gyfrifol am ddarparu canllawiau ar ryddid gwybodaeth a'r rheoliadau a chynghori staff ar sut i ddelio efo ceisiadau am wybodaeth.

Aelodau staff o fewn y gwasanaeth cefnogol sy'n gyfrifol am gydgordio ceisiadau yn gorfforaethol, gyda swyddog penodol o fewn y gwasanaeth Plant a swyddog o fewn Oedolion. Golyga hyn gofnodi ceisiadau ar y system cofnodi, casglu gwybodaeth o fewn y gwasanaeth ac anfon yr ymateb at y sawl sydd wedi gwneud y cais.

Cynhelir adolygiadau mewnol gan y Swyddog Monitro neu ddirprwy a benodir ganddo.

Y Swyddog Monitro yw 'person cymwys' y Cyngor o dan adran 36 y Ddeddf.

Y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y polisi.

## 7 Monitro, adolygu a gwerthuso

Bydd y Cyngor yn

- Cadw cofnod o'r holl geisiadau a dderbynnir o dan y Ddeddf
- Monitro'r niferoedd, amser ymateb, cwynion, eithriadau ac apelïadau
- Ystyried a oes angen ychwanegu at y Cynllun Cyhoeddi
- Cynhyrchu adroddiadau monitro ar berfformiad yn rheolaidd

## 8 Cwynion

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

Os nad yw ymgeisydd yn fodlon â'r ymateb i'w gais am ba bynnag reswm, mae ganddo'r hawl i apelio am gael ailystyried y penderfyniad.

Mae'r drefn gwyno wedi ei hatodi i'r polisi hwn (Atodiad 4).

## 9 Methiant i gydymffurfio â'r Ddeddf

### a) Pwerau'r Comisiynydd Gwybodaeth

Gall y Comisiynydd gyflwyno

- hysbysiad penderfyniad os yw o'r farn nad yw awdurdod wedi ymateb yn briodol i gais am wybodaeth.
- hysbysiad gwybodaeth yn mynnu bod awdurdod yn darparu gwybodaeth i alluogi'r Comisiynydd gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf.
- hysbysiad gorfodaeth os yw'n credu nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion o dan y Ddeddf.

Os yw'r Cyngor yn gwrthod cydymffurfio â'r hysbysiadau, fe all arwain at achos o ddirmyg llys. Y gosb ar gyfer hyn yw hyd at ddwy flynedd yn y carchar neu ddirwy ar yr awdurdod neu swyddog o'r awdurdod.

### b) Goblygiadau i staff

Disgwylir i bob aelod o staff gydymffurfio'n llawn â'r polisi hwn. Gallai methiant i gydymffurfio arwain at achos disgyblu o dan drefn ddisgyblu'r Cyngor.

Os yw'r awdurdod neu swyddog yn euog o ddifa neu gelu gwybodaeth yn fwriadol er mwyn osgoi ymateb i gais o dan y Ddeddf, gallant gael eu cosbi gan ddirwy o hyd at £5,000.

## 10 Cysylltiad gyda deddfwriaeth arall

### Deddfwriaeth diogelu data

Mae gan unigolion hawliau o dan ddeddfwriaeth diogelu data hefyd.

Os yw unigolyn yn gofyn am wybodaeth amdano ei hun, mae eithriad llwyr o dan y Ddeddf hon, (Adran 40(1)) a dylid ymdrin â'r cais o dan y drefn Diogelu Data.

Ni ellir darparu gwybodaeth am unigolyn arall pe byddai ei datgelu'n mynd yn groes i egwyddorion deddfwriaeth diogelu data.

## Atodiad 1

### Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Nodir isod yr eithriadau sy'n berthnasol i lywodraeth leol:

### Eithriadau llwyr

- a21 Gwybodaeth sydd ar gael fel arall, sef gwybodaeth y mae'n gymharol hawdd i'r cyhoedd ei gweld trwy ffordd arall heblaw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

- a32 Cofnodion Llys e.e. dogfennau sydd wedi'u ffeilio neu eu rhoi yn nwylo'r llys.
- a40 Gwybodaeth bersonol am y person sy'n gwneud cais – ymdrinnir â'r cais o dan ddeddfwriaeth diogelu data  
Gwybodaeth bersonol ynghylch trydydd parti – pe bai ei datgelu'n mynd yn groes i egwyddorion deddfwriaeth diogelu data
- a41 Gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol gan unrhyw un
- a44 Gwybodaeth y gwaherddir ei datgelu e.e dan ddeddfwriaeth; y byddai ei datgelu'n golygu dirmyg llys neu yn anghydnaws ag unrhyw un o ymrwymadau'r Gymuned Ewropeaidd.

## **Eithriadau lle mae'n rhaid defnyddio “prawf lles y cyhoedd”:**

Os yw'r awdurdod yn penderfynu bod un neu ragor o'r eithriadau yn berthnasol, mae'n rhaid iddo ddatgelu'r gwybodaeth oni bai ei fod yn penderfynu bod 'lles y cyhoedd' yn mynnu bod angen glynu at yr eithriad.

- a22 Gwybodaeth a fwriadwyd i'w chyhoeddi yn y dyfodol h.y mewn amgylchiadau lle mae'n rhesymol i beidio â datgelu'r wybodaeth hyd y diwrnod y bwriedir ei chyhoeddi.
- a30 Gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwiliadau ac achosion llys a ymgwymerir gan awdurdod cyhoeddus e.e., gwybodaeth am ymchwiliadau ac achosion troseddol a gwybodaeth a gafwyd o ffynonellau cyfrinachol ar gyfer achosion llys troseddol neu sifil.
- a31 Gwybodaeth yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith
- a33 Swyddogaethau archwilio
- a36 Gwybodaeth a fyddai'n niweidio'r gwaith o ymdrin â materion cyhoeddus yn effeithiol.
- a38 Gwybodaeth lle byddai ei datgelu yn peryglu iechyd corfforol neu feddyliol neu ddiogelwch unrhyw unigolyn
- a39 Gwybodaeth am yr amgylchedd – yn dod o dan Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- a42 Gwybodaeth sy'n dod o dan fraint gyfreithiol broffesiynol
- a43 Gwybodaeth am fuddiannau masnachol lle mae'r wybodaeth yn gyfrinach fasnachol neu pe byddai ei datgelu yn niweidio neu'n debygol o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson.



Nodir isod yr eithriadau o dan y Rheoliadau. Mae pob un, ar wahân i reoliad 13 yn destun prawf lles y cyhoedd ac os yw'r wybodaeth yn ymwneud â gollyngiadau, ni all y Cyngor wrthod rhyddhau gwybodaeth ar sail cyfrinachedd gwaith, cyfrinachedd masnachol, data personol/gwirfoddol neu warchod yr amgylchedd.

- 5(6) Ni ellir defnyddio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gwahardd datgelu gwybodaeth amgylcheddol
  
- 12(4)(a) Nid yw'r wybodaeth yn cael ei dal
- 12(4)(b) Mae'r cais yn amlwg yn afresymol
- 12(4)(c) Mae'r cais yn rhy gyffredinol
- 12(4)(d) Deunydd sydd wrthi'n cael ei lunio, dogfennau anorffenedig neu data anghyflawn
- 12(4)(e) Datgelu cyfathrebu mewnol
  
- 12(5)(a) Perthnasau rhyngwladol/diogelwch y cyhoedd/amddiffyn
- 12(5)(b) Cwrs cyfiawnder
- 12(5)(c) Hawliau eiddo deallusol
- 12(5)(d) Cyfrinachedd gwaith
- 12(5)(e) Cyfrinachedd masnachol
- 12(5)(f) Gwybodaeth o'i datgelu fyddai'n cael effaith andwyol ar y person a ddarparodd y wybodaeth yn wirfoddol
- 12(5)(g) Gwarchod yr amgylchedd
  
- 13 Data personol

### Polisi Codi Tâl Cyngor Gwynedd

#### Deddf Rhyddid Gwybodaeth

Yn unol â Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Ffiniau Priodol a Ffioedd) 2004, bydd polisi'r Cyngor fel a ganlyn:

1. Wrth gyfrifo'r gost o ymateb i gais ysgrifenedig, bydd y Cyngor yn cyfrifo faint o amser a gymer aelod unigol o staff, ar raddfa o £25 yr awr, i gyflawni'r tasgau a ganlyn:
  - i) Canfod a yw'r Cyngor yn cadw'r wybodaeth o gwbl,
  - ii) Dod o hyd i'r wybodaeth neu'r ddogfen
  - iii) Adfer y wybodaeth berthnasol
  - iv) Cael y wybodaeth berthnasol o'r ddogfen.
2. Os yw'r Cyngor yn penderfynu ymateb i gais sydd uwch ben y trothwy o £450, bydd ganddo'r hawl i godi am yr eitemau a ganlyn:
  - i) y gost o gyflawni'r tasgau a nodir yn i)-iv) uchod,
  - ii) y gost o hysbysu'r ymgeisydd a yw'n cadw'r wybodaeth
  - iii) y gost o anfon y wybodaeth ato (sef postio, argraffu a llungopïo).

#### 3. All Daliadau

Yn ychwanegol at y ffioedd, mae gan y Cyngor hawl i geisio taliad am y materion isod, mae'r rhain yn ychwanegol at y ffioedd beth bynnag fo'r gost.

- i) cydymffurfio â chais yr ymgeisydd am wybodaeth mewn ffurf arbennig
- ii) ail gynhyrchu neu gopïo dogfennau. Bydd y Cyngor yn codi'r ffioedd a ganlyn ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Amgylcheddol:

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

Llungopïo neu Argraffu	
A4	£0.10
Lliw A4	£0.50
A3	£0.20
Lliw A3	£1.00
CD	£0.25
Tâp sain	£2.00
Fideo/DVD	£2.50
Mapiau	Dibynnu ar y cais

iii) costau post, ffacs a.y.b

Fodd bynnag, ni fydd y Cyngor yn codi tâl o gwbl os yw cyfanswm y costau uchod yn llai na £10.

#### 4. Cyfieithu

Yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, gall y Cyngor codi tâl am gyfieithu dogfennau:

1. Os yw nifer y geiriau yn fwy na 2000.
2. Os yw'r cais am gyfieithiad i iaith heblaw y Gymraeg neu'r Saesneg

Bydd y tâl ar sail cost resymol am ddarparu'r cyfieithiad a all gynnwys cost defnyddio cyfieithwyr allanol.

5. Petai'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd y gost o ymateb i gais yn is na £450, bydd y Cyngor ond yn codi tâl am y costau postio, argraffu, llungopïo a dulliau eraill o ddarparu'r wybodaeth, yn unol â graddfeydd arferol y Cyngor, ynghyd â'r gost o ddarparu'r wybodaeth mewn ffurf arbennig gan gynnwys cyfieithu. Nid oes rhaid i'r Cyngor ymateb i gais yr amcangyfrifir sy'n mynd i gostio mwy na £450 i'w brosesu. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cyngor yn trafod y mater gyda'r sawl sydd wedi gwneud y cais i weld a fyddent yn fodlon addasu neu newid y cais, er mwyn lleihau'r gost.
6. Ble mae'r Cyngor yn bwriadu codi am ddarparu'r wybodaeth, yna yn unol â darpariaethau Adran 9 o Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 bydd y Cyngor yn rhoi Rhybudd Ffioedd i'r sawl sydd yn gwneud y cais. Os na dderbynnir y ffi o fewn tri mis o anfon y Rhybudd ni fydd y cais yn cael ei brosesu.

7. Os yw'r Cyngor yn derbyn dau neu ragor o geisiadau tebyg oddi wrth unigolyn neu unigolion gwahanol sy'n gweithio ar y cyd neu fel rhan

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

o ymgyrch, a hynny o fewn 60 diwrnod gwaith yn olynol, bydd yn cyfrifo'r gost o ymateb i'r holl geisiadau gyda'i gilydd. Os yw cyfanswm y gost yn fwy na £450, ni fydd rhaid iddo ymateb i unrhyw un o'r ceisiadau.

## Rheoliadau Amgylcheddol 2004

Mae'r Rheoliadau yn nodi y gellir codi tâl rhesymol am wybodaeth amgylcheddol.

Chwiliadau tir lleol

Bydd y Cyngor yn codi tal fel a ganlyn am amser staff a dreulir yn paratoi gwybodaeth mewn ymateb i gais penodol. Mae hyn yn cynnwys amser a dreulir yn dod o hyd i wybodaeth, ei hadfer a'i rhoi mewn fformat penodol.

Nifer cwestiynau

1-2	£25
3-5	£42
>5	£66

Ni fyddwn yn codi tâl am ganiatau i ymgeiswyr edrych ar gofrestri cyhoeddus nac am alw heibio swyddfeydd i weld gwybodaeth.

Ni fyddwn yn codi tâl am gynnal unrhyw gronfa ddata.

## Atodiad 4

### Trefn ar gyfer delio â cheisiadau am adolygiad mewnol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Nodir isod ganllawiau ar gyfer delio â cheisiadau am adolygiadau a gyflwynir o dan y ddeddfwriaeth uchod.

#### **Cam 1: Trefn adolygu fewnol**

Os nad yw achwynydd yn fodlon â'r ymateb i'w gais, gall ofyn am adolygiad mewnol. Y Swyddog Monitro fydd yn cynnal yr adolygiad, neu ei ddirprwy, a hynny o fewn 20 diwrnod gwaith.

#### **Cam 2: Trefn adolygu allanol**

Os nad yw'r achwynydd yn fodlon gyda chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae ganddo hawl i apelio at y Comisiynydd Gwybodaeth trwy gysylltu ag o yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

1. Bydd y swyddogion perthnasol yn derbyn cais am adolygiad.
2. Bydd y cofnodi hyn ar y system tracio ac yn anfon llythyr cydnabod at yr achwynydd. Dylid nodi mai'r dyddiad targed ar gyfer ymateb yw 20 diwrnod gwaith. Dylid hysbysu'r achwynydd o'r dyddiad targed ar gyfer dod i benderfyniad. Os yw'n amlwg na fydd y Cyngor yn gallu ymateb o fewn y dyddiad targed, dylid hysbysu'r achwynydd ac egluro'r rheswm am yr oedi.
3. Bydd y person sy'n delio â'r mater yn cynnal adolygiad mewnol a naill ai yn:
  - Gofyn am ragor o amser i ystyried y mater
  - Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol i beidio â rhyddhau'r wybodaeth
  - Addasu'r penderfyniad gwreiddiol trwy gytuno i ryddhau peth o'r wybodaeth oedd wedi ei dal yn ôl
  - Gwydroi'r penderfyniad gwreiddiol a rhyddhau'r holl wybodaeth oedd wedi ei dal yn ôl.

Yr adolygwr fydd yn cysylltu gyda'r achwynydd, gyda chopi i'r swyddog sy'n tracio ceisiadau.

4. a) Os mai'r canlyniad yw cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, yna dylid hysbysu'r achwynydd fod ganddo hawl i apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth os yw'n anfodlon.  
b) Os mai'r canlyniad yw bod angen datgelu gwybodaeth o'r newydd, dylid anfon y wybodaeth honno at yr achwynydd cyn gynted ag y bo modd.  
c) Os mai'r canlyniad yw bod trefniadau mewnol y Cyngor heb eu dilyn yn briodol gan staff, dylai'r Cyngor ymddiheuro i'r achwynydd.
5. Y swyddog i gadw cofnod ar y system tracio o'r cais am adolygiad, y dyddiad derbyn a'r dyddiad cwblhau. Dylid cadw unrhyw ddogfennau perthnasol ar ffeil y cais gwreiddiol.